Children in Wales
Plant yng Nghymru

CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN
BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

CHILD SAFETY WEEK

LEGISLATION

NEWS

RESEARCH

RESOURCES

TRAINING

WYTHNOS DIOGELWCH PLANT

DEDDFWRIAETH

NEWYDDION

YMCHWIL

ADNODDAU

HYFFORDDIANT

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

April 2010

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

If you do not wish to receive this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

CHILD SAFETY WEEK

Child Safety Week 21st - 27th June 2010

Child Safety Week is the Child Accident Prevention Trust's flagship community education campaign. It aims to raise awareness of the number of accidents that seriously injure or kill children and how to prevent them. The theme for 2010 is 'make time for safety'.

LEGISLATION

Telegraph: Children banned from using sunbeds in new law
Under 18s will be banned from using sunbeds under new legislation passed by Parliament. Salons will also have to be manned, meaning that coin-operated booths will be outlawed after several children suffered serious burns after using them without supervision.

National Assembly for Wales: The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Transport) Order 2010
This Order, which extends the legislative competence of the National Assembly for Wales to make new laws for Wales by Measure in relation learner transport safety, has received Royal Approval.

NEWS

BBC: Fears as children aged 11 take driving lessons
Thousands of children - some as young as 11 - are enrolling for driving lessons at a growing number of specialist centres, but the trend has police and safety groups concerned.

Western Mail: Children work with Busk to focus on better road safety
NEARLY seven out of 10 children have witnessed bad driving, often involving their parents, according to independent research

U.S. Consumer Product Safety Commission: Infant Deaths Prompt CPSC Warning About Sling Carriers for Babies
The U.S. Consumer Product Safety Commission (CPSC) is advising parents and caregivers to be cautious when using infant slings for babies younger than four months of age. In researching incident reports from the past 20 years, CPSC identified and is investigating at least 14 deaths associated with sling-style infant carriers, including three in 2009. Twelve of the deaths involved babies younger than four months of age.

RESEARCH

DCSF: Staying Safe Survey 2009
Young people and parents' attitudes around accidents, bullying and safety

The Choking Game: A Cause of Unintentional Strangulation
Egge MK, Berkowitz CD, Toms C, Sathyavagiswaran L. Pediatr Emerg Care 2010; 26(3): 206-8.
The choking game is popular with adolescents and is particularly dangerous when played alone. Emergency physicians should be aware of the characteristic warning signs that include frequent severe headaches, altered mental status after spending time alone, neck markings, and bloodshot eyes and counsel adolescents about the real risks associated with the activity.

The Choking Game and YouTube: A Dangerous Combination
Linkletter M, Gordon K, Dooley J. Clin Pediatr 2010; 49(3): 274-279.
Purpose: To study postings of partial asphyxiation by adolescents on YouTube and to increase awareness of this dangerous activity as well as the value of YouTube as a research tool.

Airway covering during bed-sharing
Ball H. Child Care Health Dev 2009; 35(5): 728-37.
To further understand the role of airway covering and compression in creating risks for bed-sharing infants, we report here on a sleep-lab trial of two infant sleep conditions.

Fatal accidental fall from height in infants and children: a study from South Delhi
Behera C, Rautji R, Dogra TD. Med Sci Law 2010; 50(1): 22-4.
One hundred and seventy-four deaths of infants and children due to accidental fall from height received from South Delhi for autopsy were studied during the 10-year period from January 1998 to December 2007 at the All India Institute of Medical Sciences, New Delhi.

Adult pedestrian behavior when accompanying children on the route to school
Pfeffer K, Fagbemi HP, Stennet S. Traffic Injury Prev 2010; 11(2): 188-93.
Pedestrian injuries are a major cause of morbidity and mortality to children, especially boys. Adults serve as pedestrian role models and provide learning opportunities for children when walking to school. The research objectives were to investigate adult pedestrian behavior when accompanying boys and girls.

WC19: A wheelchair transportation safety standard--Experience to date and future directions.
Manary MA, Ritchie NL, Schneider LW. Med Eng Phys 2010; 32(3): 263-271.
ANSI/RESNA WC19 (i.e., WC19) is a voluntary standard that specifies

design and performance requirements for wheelchairs that are suitable for use as seats in motor vehicles. sults from testing wheelchairs to WC19 reveal that the most common wheelchair problems include: a lack of structural integrity during frontal-impact loading; sharp rigid edges; and wheelchair structures that interfere with achieving proper positioning of vehicle-anchored belt restraints.

Retrospective review of adverse incidents involving passengers seated in wheeled mobility devices while traveling in large accessible transit vehicles.

Frost KL, Bertocci G. Med Eng Phys 2010; 32(3): 230-236.

Objective: Characterize wheeled mobility device (WhMD) adverse incidents on large accessible transit vehicles (LATVs) based on vehicle motion, WhMD activity during incident, incident scenario and injury.

Deprivation and unintentional injury hospitalization in Quebec children

Gagné M, Hamel D. Chronic Dis Can 2009; 29(2): 56-69

.

Injuries disproportionately affect children from deprived areas. This study examines the links between the material and social dimensions of deprivation and injury hospitalizations in children aged 14 years or under from 2000 to 2004.

Evaluation on the health education program regarding prevention of non-fatal drowning among school-aged children in Lianping county, Guangdong province.

Guo QZ, Ma WJ, Xu HF, Nie SP, Xu YJ, Song XL, Li HK. Zhonghua Liu Xing Bing Xue Za Zhi 2010; 31(1): 22-6

OBJECTIVE: To evaluate the outcome of health education program on drowning prevention among primary and secondary school children in rural areas.

An analysis of risk factors of non-fatal drowning among children in rural areas of Guangdong Province, China: a case-control study

Wen Jun Ma, Shao Ping Nie, Hao Feng Xu, Yan Jun Xu, Xiu Ling Song, Qiao Zhi Guo, Yu Run Zhang

Drowning is a major cause of morbidity and mortality for children, yet non-fatal drowning remains poorly understood. The aim of this study was to explore potential modifiable risk factors of non-fatal drowning among children in rural areas of China.

RESOURCES

NHS Choices: Video - Preventing Accidents at Home
Find out how to make your home childproof and prevent avoidable accidents.

Make it Safe
Information from the British Blind and Shutter Association

Make it Safe! Leaflet
Leaflet showing how to reduce the risk from looped blind cords and chains.

TRAINING

Children in Wales: Training Brochure Spring - Autumn 2010

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

WYTHNOS DIOGELWCH PLANT

Wythnos Diogelwch Plant: 21ain - 27ain o Fehefin, 2010
Wythnos Diogelwch Plant yw prif ymgyrch addysg gymunedol yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau i Blant. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o nifer y damweiniau sy'n anafu plant yn ddifrifol neu'n eu lladd, a sut i'w hatal hwy rhag digwydd. Y thema ar gyfer 2010 yw 'gwnewch amser am ddiogelwch'.

DEDDFWRIAETH

Telegraph: Plant yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwelyau haul mewn deddf newydd

Fe fydd pobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwelyau haul o dan ddeddfwriaeth newydd a basiwyd gan y Senedd. Fe fydd yn rhaid i salonau hefyd gael eu staffio, gan olygu y bydd bythod sydd ag offer a weithredir gan ddefnyddio darnau arian yn cael eu gwahardd ar ôl i amryw o blant ddioddef llosgiadau difrifol ar ôl eu defnyddio hwy heb oruchwyliaeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddfau newydd i Gymru drwy Fesur yn ymwneud â diogelwch trafnidiaeth dysgwyr, wedi derbyn Cymeradwyaeth y Frenhines.

NEWYDDION

BBC: Fears as children aged 11 take driving lessons

Mae miloedd o blant - rhai mor ifanc ag 11 - yn cofrestru ar gyfer gwersi gyrru mewn nifer cynyddol o ganolfannau arbenigol, ond mae'r tueddiad yn peri gofid i'r heddlu a grwpiau diogelwch.

Western Mail: Children work with Busk to focus on better road safety

Mae BRON saith o bob 10 o blant wedi bod yn dystion i yrru gwael, yn aml yn ymwneud â'u rhieni, yn ôl ymchwil annibynnol.

U.S. Consumer Product Safety Commission: Infant Deaths Prompt CPSC Warning About Sling Carriers for Babies

Mae Comisiwn Diogelwch Cynnyrch Defnyddwyr yr U.D. (CPSC) yn cynghori rhieni a rhoddwyr gofal i fod yn ofalus wrth ddefnyddio slingiau babanod ar gyfer babanod iau na phedwar mis oed. Wrth ymchwilio i adroddiadau am ddigwyddiadau o'r 20 mlynedd diwethaf, fe wnaeth CPSC nodi ac mae'n ymchwilio i o leiaf 14 o farwolaethau yn gysylltiedig â chludyddion babanod dull sling, yn cynnwys tri yn 2009. 'Roedd deuddeg o'r marwolaethau yn ymwneud â babanod iau na phedwar mis oed.

YMCHWIL

DCSF: Staying Safe Survey 2009
Agweddau pobl ifanc a rhieni ynglyn â damweiniau, bwlio a diogelwch.

The Choking Game: A Cause of Unintentional Strangulation
Egge MK, Berkowitz CD, Toms C, Sathyavagiswaran L. Pediatr Emerg Care 2010; 26(3): 206-8.
Mae'r gêm dagu yn boblogaidd gyda'r glasoed, ac mae'n neilltuol o beryglus pan chwaraeir hi ar eich pen eich hun. Fe ddylai meddygon brys fod yn ymwybodol o'r arwyddion rhybuddiol nodweddiadol, sy'n cynnwys cur pen difrifol mynych, statws meddyliol wedi newid ar ôl treulio amser ar eu pennau eu hunain, marciau ar y gwddf, a llygaid gwaetgoch, a chwnsela'r glasoed ynglyn â'r peryglon gwirioneddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd.

The Choking Game and YouTube: A Dangerous Combination
Linkletter M, Gordon K, Dooley J. Clin Pediatr 2010; 49(3): 274-279.
Diben: Astudio cofnodion o fygu rhannol gan y glasoed ar YouTube a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gweithgaredd peryglus hwn, yn ogystal â gwerth YouTube fel offer ymchwil.

Airway covering during bed-sharing
Ball H. Child Care Health Dev 2009; 35(5): 728-37.
I ddeall rhagor ar rôl gorchuddio llwybr anadlu a chywasgu mewn creu risgiau i fabanod sy'n rhannu gwely, 'rydym yn adrodd yma am dreial labordy profion cwsg o ddau gyflwr o gwsg babanod.

Fatal accidental fall from height in infants and children: a study from South Delhi*Behera C, Rautji R, Dogra TD. Med Sci Law 2010; 50(1): 22-4.*
Fe gafodd cant a saith deg a phedwar o farwolaethau babanod a phlant o ganlyniad i gwympiadau damweiniol o uchder a dderbyniwyd o South Delhi ar gyfer awtopsi eu hastudio yn ystod y cyfnod deng mlynedd o fis Ionawr 1998 i fis Rhagfyr 2007 yn Sefydliad Gwyddorau Meddygol India Gyfan, Delhi Newydd.

Adult pedestrian behavior when accompanying children on the route to school
Pfeffer K, Fagbemi HP, Stennet S. Traffic Injury Prev 2010; 11(2): 188-93.
Mae anafiadau i gerddwyr yn achos mawr o afiachusrwydd a marwolaethau ymysg plant, yn enwedig i fechgyn. Mae oedolion yn gwasanaethu fel delfrydau ymddwyn sy'n gerddwyr ac maent yn darparu cyfleoedd dysgu i blant wrth gerdded i'r ysgol. Amcanion yr ymchwil oedd ymchwilio i ymddygiad cerddwyr sy'n oedolion wrth gyd-deithio gyda bechgyn a genethod.

WC19: A wheelchair transportation safety standard--Experience to date and future directions.

Manary MA, Ritchie NL, Schneider LW. Med Eng Phys 2010; 32(3): 263-271.
Mae ANSI/RESNA WC19 (hynny yw, WC19) yn safon wirfoddol sy'n rhestru gofynion dylunio a pherfformio ar gyfer cadeiriau olwyn sy'n addas i'w defnyddio fel seddau mewn cerbydau modur. Mae canlyniadau o brofi cadeiriau olwyn i safon WC19 yn datgelu bod y problemau mwyaf cyffredin i gadeiriau olwyn yn cynnwys: diffyg cyfanrwydd strwythurol yn ystod gwrthdrawiad o'r tu blaen; ymylon anhyblyg miniog; a strwythurau cadeiriau olwyn sy'n ymyrryd â sicrhau safle cywir i'r gwregysau atal sydd wedi'u hangori yn y cerbyd.

Retrospective review of adverse incidents involving passengers seated in wheeled mobility devices while traveling in large accessible transit vehicles.
Frost KL, Bertocci G. Med Eng Phys 2010; 32(3): 230-236.
Amcan: Nodweddu digwyddiadau anffafriol dyfais symudedd ar olwynion ar gerbydau trawstaith hygyrch mawr yn seiliedig ar symudiad cerbydau, gweithgaredd dyfais symudedd ar olwynion yn ystod digwyddiad, senario digwyddiad ac anaf.

Deprivation and unintentional injury hospitalization in Quebec children
Gagné M, Hamel D. Chronic Dis Can 2009; 29(2): 56-69.
Mae anafiadau yn effeithio'n anghymesur ar blant o ardaloedd difreintiedig. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r cysylltiadau rhwng dimensiynau perthnasol a chymdeithasol amddifadedd a gorfod bod mewn ysbyty oherwydd anaf ymysg plant 14 mlwydd oed neu iau o 2000 i 2004.

Evaluation on the health education program regarding prevention of non-fatal drowning among school-aged children in Lianping county, Guangdong province.
Guo QZ, Ma WJ, Xu HF, Nie SP, Xu YJ, Song XL, Li HK. Zhonghua Liu Xing Bing Xue Za Zhi 2010; 31(1): 22-6
AMCAN: Gwerthuso deilliant rhaglen addysg iechyd ynglyn ag atal boddi ymysg plant ysgolion cynradd ac uwchradd mewn ardaloedd gwledig.

An analysis of risk factors of non-fatal drowning among children in rural areas of Guangdong Province, China: a case-control study

Wen Jun Ma, Shao Ping Nie, Hao Feng Xu, Yan Jun Xu, Xiu Ling Song, Qiao Zhi Guo, Yu Run Zhang
Mae boddi'n achos mawr o afiachusrwydd a marwolaethau ymysg plant, ac eto mae boddi nad yw'n angheuol yn dal yn rhywbeth nad yw'n cael ei ddeall yn dda. Nod yr astudiaeth hon oedd archwilio ffactorau risg addasadwy posibl o foddi nad yw'n angheuol ymysg plant mewn ardaloedd gwledig o Tsieina.

ADNODDAU

NHS Choices: Video - Preventing Accidents at Home
Canfyddwch sut i wneud eich cartref yn ddiogel rhag plant ac atal damweiniau y mae modd eu hosgoi.

Make it Safe
Gwybodaeth oddi wrth Gymdeithas Bleindiau a Chaeadau Prydain.

Taflen Make it Safe!
Taflen yn dangos sut i leihau'r peryglon oddi wrth gortynnau bleindiau dolennog a chadwynau.

HYFFORDDIANT

Plant yng Nghymru: Pamffled Hyfforddi, Gwanwyn - Hydref 2010

Thank you,
Diolch,

Karen McFarlane

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please click here.

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, cliciwch yma.

SafeUnsubscribe®

Email Marketing by
Constant Contact
TRY IT FREE